

# Amodau Cofrestru 2023/24

Cytundeb Atodol ar gyfer Myfyrwyr TAR  
Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru)

## Cynnwys

Fformat amgen.....	2
Cwmpas.....	2
Dogfennaeth Gysylltiedig .....	4
Cyflwyniad .....	5
Prif delerau'r Cytundeb Atodol.....	6
1 Gofyniad i ddatgelu euogfarnau troseddol, cyfyngiadau cyfreithiol, amodau a materion disgyblu.....	6
2 Gweithdrefnau Cod Ymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer.....	7
3 Ymrwymiad i Addysgu.....	9
4 Ffioedd neu Gostau Astudio .....	11
5 Cytundeb ag Ysgol Bartner a Derfynir gan Y Brifysgol Agored .....	12
6 Canslo neu Dynnu eich Cofrestriad yn ôl.....	12
7 Eich Astudiaethau.....	14
8 Newid Eich Cynlluniau Astudio (Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio).....	15
9 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data .....	16
10 Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol.....	17
Geirfa.....	18
Eglurhad pellach .....	22
Y Brifysgol Agored yng Nghymru.....	22
I siaradwyr Cymraeg.....	23
Adborth .....	23
Atodiad A .....	24

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

## Fformat amgen

Os bydd angen i chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru drwy ffonio +44 (0)29 2047 1170 neu anfon e-bost at [wales-support@open.ac.uk](mailto:wales-support@open.ac.uk).

**An English language version of this policy is available.**

An English language version of this policy is also available.

## Cwmpas

### Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Dim ond i fyfyrwyr sydd wedi cael eu derbyn ar raglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru) Y Brifysgol Agored y mae'r Cytundeb Atodol hwn yn berthnasol. Mae'n nodi'r telerau ychwanegol mewn perthynas ag astudio cymhwyster TAR (Cymru) o dan y ddau llwybr sydd ar gael: y Llwybr Cyflogedig a'r Llwybr Rhan Amser.

Mae myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer TAR (Cymru) ar y Llwybr Cyflogedig yn aelodau o staff cyflogedig mewn ysgol. Ariennir eu costau astudio'n llawn gan Lywodraeth Cymru drwy 'grant hyfforddi' a thelir cyflog athro heb gymhwyso gan ei sefydliad cyflogi. Byddant yn Fyfyrwyr gyda'r Brifysgol Agored ac yn gyflogeion yn eu Hysgol Gyflogi. Bydd angen iddynt gofrestru â'r Corff Rheoleiddio (Cyngor y Gweithlu Addysg) fel gweithiwr Cymorth Dysgu mewn Ysgol cyn iddynt ddechrau eu rhaglen TAR, a bydd angen iddynt gydymffurfio â [Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg](#).

Bydd Myfyrwyr Cyflogedig yn ymgymryd â chyfnodau o ymarfer dysgu mewn ysgol, astudiaethau academaidd a chyflogaeth ar yr un pryd. Caiff ymarfer dysgu ei asesu gan fentoriaid, cydlynwyr ysgol, a thiworiaid ymarfer; rhoddir mwy o wybodaeth am y rolau hyn yn yr [Eirfa](#).

Bydd myfyrwyr sy'n astudio drwy'r llwybr rhan amser yn hunanariannu eu hastudiaeth, gan ymgymryd â chyfnodau o ymarfer dysgu yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ac mewn cytundeb â'u hysgolion partner. Yn debyg i fyfyrwyr cyflogedig, caiff ymarfer dysgu ei asesu gan fentoriaid, cydgysylltwyr ysgolion, a thiworiaid ymarfer.

Ar ôl ennill cymhwyster TAR (Cymru) yn llwyddiannus, bydd Y Brifysgol Agored yn argymhell i Gyngor y Gweithlu Addysg y dylid dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

Gellir diweddarau'r Cytundeb Atodol hwn drwy gydol y flwyddyn er mwyn cywiro gwallau, gwella eglurder neu hygyrchedd, neu fyfyrrio ar newidiadau i ofynion cyfreithiol neu reoliadol. Os bydd y diwygiadau hyn yn digwydd ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn cael gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

## Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Nid yw'r Cytundeb Ychwanegol hwn yn gymwys i'r canlynol:

- myfyrwyr nad ydynt wedi cael eu derbyn ar raglen TAR (Cymru) Y Brifysgol Agored eto.
- Mae pob modiwl, cymhwyster neu raglen arall y tu allan i raglen TAR.

Dylai pob Myfyriwr a Dysgwr sydd heb ei gwmpasu gan y Cytundeb Atodol hwn gyfeirio at dudalen we [Polisiâu a Rheoliadau'r Myfyrwyr](#) i fynd at yr Amodau Cofrestru neu'r Telerau ac Amodau sy'n gymwys iddynt. Os oes angen help arnoch, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at [general-enquiries@open.ac.uk](mailto:general-enquiries@open.ac.uk)

## Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o [Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru \(TAR\) 2022/23 \(Saesneg yn unig\)](#). Mae'r ddogfen hon yn Gytundeb Atodol i'r prif [Amodau Cofrestru](#). Mae'r telerau ac amodau yn y Cytundeb Atodol hwn yn cael blaenoriaeth dros yr Amodau Cofrestru lle bo'r rhain yn wahanol. Mae crynodeb o'r newidiadau sylweddol o'r fersiwn flaenorol yn [Adran 10](#).

## Dogfennaeth Gysylltiedig

Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

### Dogfennau sy'n llywodraethu eich astudiaethau:

- [Amodau Cofrestru](#)
- [Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer \(Saesneg yn unig\)](#)
- [Addasrwydd i Astudio](#)
- [Rheoliadau sy'n benodol ar gyfer rhaglen TAR](#)

### Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data:

- [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr \(Saesneg yn unig\)](#)

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r Brifysgol Agored mewn perthynas ag astudio ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru). Dylid ei darllen ar y cyd â'r ddogfen [Amodau Cofrestru](#) a'r rheolau, y rheoliadau a'r polisiau y cyfeirir atynt ynnddi ac yn y cytundeb hwn.

Drwy gofrestru ar gyfer rhaglen TAR (Cymru), rydych yn cytuno i'r telerau a nodir yn yr [Amodau Cofrestru](#) (heblaw am yr eithriadau a restrir yn Nhabl 1 isod) ynghyd â'r rhai hynny a restrir yn ychwanegol yn y ddogfen hon. Caiff [Geirfa](#) ei chynnwys i esbonio unrhyw dermau a all fod yn anghyfarwydd i chi.

**Tabl : 1 Eithriadau i'r Amodau Cofrestru ar gyfer Llwybrau TAR**

<b>Adran Amodau Cofrestru 2023/24</b>	<b>Eithriadau ar gyfer TAR Llwybr cyflogedig</b>	<b>Eithriadau ar gyfer TAR Llwybr Rhan Amser</b>
Adran A: Eich cytundeb i gofrestru	Nid yw A1.c) y polisi "Derbyn Ymgeiswyr o dan 18 Oed" yn gymwys gan na fydd y rhaglen yn derbyn unrhyw un o dan 18 oed.  Caiff A2, gofyniad i ddatgelu euogfarnau troseddol, cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol ei ddisodli gan Adran 1.1 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn	Nid yw A1.c) y polisi "Derbyn Ymgeiswyr o dan 18 Oed" yn gymwys gan na fydd y rhaglen yn derbyn unrhyw un o dan 18 oed.  Caiff A2, gofyniad i ddatgelu euogfarnau troseddol, cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol ei ddisodli gan Adran 1.1 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn
Adran B: Eich ffioedd	Caiff Adran B Eich Ffioedd ei disodli gan Adran 4 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn	Caiff Adran B Eich Ffioedd ei disodli gan Adran 4 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn
Adran D: Canslo neu dynnu eich cofrestriad yn ôl	Caiff E1 Sut i ganslo neu dynnu eich cofrestriad yn ôl ei ddisodli gan Adran 6 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn	Caiff E1 Sut i ganslo neu dynnu eich cofrestriad yn ôl ei ddisodli gan Adran 6 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

Mae'r Cytundeb hwn yn effeithiol o'r dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer eich TAR, a bydd yn parhau i fod yn gymwys tan eich bod wedi cwblhau eich cymhwyster, neu tan y bydd eich cofrestriad wedi dod i ben neu wedi cael ei ganslo, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Gall myfyrwyr ond gofrestru ar gyfer TAR (Cymru) trwy Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr yn Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

I gael canllawiau penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'r tîm TAR yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk).

## Prif delerau'r Cytundeb Atodol

### 1 Gofyniad i ddatgelu euogfarnau troseddol, cyfyngiadau cyfreithiol, amodau a materion disgyblu

1.1 Mae'n rhaid i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol cyn cofrestru neu ar unrhyw bwynt y byddwch yn dod yn destun euogfarn droseddol yn ystod eich astudiaethau. Mae'n debygol iawn y bydd unrhyw euogfarn droseddol yn eich atal rhag astudio TAR (Cymru) gyda'r Brifysgol Agored, ond caiff pob achos ei ystyried yn unigol.

1.2 Mae'n rhaid i bob myfyriwr feddu ar dystysgrif clirio y Cynllun Datgelu a Gwahardd cyn y gallant gael profiad o addysgu mewn ysgol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n ddarostyngedig i orchymyn, cyfyngiad neu drefniant a osodwyd gan lys neu gorff awdurdodedig ar hyn o bryd neu a ddaw'n ddarostyngedig iddynt, hysbysu Cyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd am unrhyw amodau a all eu hatal rhag cymryd rhan lawn yn eu cwrs a chymuned ehangach y Brifysgol yn ddi-oed. O dan amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i astudio cymhwyster TAR (Cymru) oherwydd eich bod yn torri'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer (gweler adran 2 isod). Mae'r datgeliad hwn yn ein helpu i gyflawni ein rhwymedigaeth diogelu ac yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi'u Cofrestru fel Troseddwy'r Rhyw ac sy'n destun Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

1.3 Mae'n rhaid i chi ddatgelu canlyniad unrhyw weithdrefn ddisgyblu rydych wedi bod yn destun iddi, sy'n groes i [God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg](#). Mae'n rhaid i chi ddatgelu'r wybodaeth hon yn ystod y broses ymgeisio neu ar unrhyw bwynt y byddwch yn dod yn destun gweithdrefn ddisgyblu yn ystod eich astudiaethau. Gall methu â gwneud hyn arwain at ohirio'ch cais neu derfynu eich astudiaethau. Bydd Cyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru yn asesu canlyniad y weithdrefn ddisgyblu ac yn penderfynu a yw hyn yn gwarantu tynnu eich cais yn ôl neu derfynu eich astudiaethau.

## Gweithdrefnau Cod Ymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer

Drwy ymrwmo i'r Cytundeb Ychwanegol hwn, rydych yn cydnabod yn agored eich bod yn deall ac yn cytuno i ymrwmo i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer diwygiedig (yn weithredol o 2.1 Medi 2019) a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio, Cyngor y Gweithlu Addysg: [Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg](#).

Bydd hefyd angen i fyfyrwyr cyflogedig [gofrestru'n ffurfiol â Chyngor y Gweithlu Addysg](#) fel Gweithiwr Cymorth Dysgu'r Ysgol.

Mae hyn yn golygu'r canlynol:

- a) Os mynegir pryder nad ydych yn cyflawni neu'n cynnal disgwyliadau'r Cod ar lefel sy'n briodol ar gyfer cam eich astudiaethau ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru), ac nad yw dulliau cymorth eraill wedi bod yn ddigonol, efallai y cewch eich cyfeirio o dan [Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#) Y Brifysgol Agored.

Gall hyn arwain at y canlynol:

- gosod amodau fel eich bod yn gallu parhau i astudio ar gyfer TAR;
  - eich atal rhag astudio ar gyfer TAR;
  - terfynu cofrestriad ar gyfer TAR;
  - peidio â dyfarnu TAR.
- b) Rydych yn cytuno i hysbysu Cyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd ([Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk)) cyn gynted â phosibl am unrhyw fater a all beri pryder ynglŷn â'ch gallu i gydymffurfio â Chod Ymddygiad ac Ymarfer yr Awdurdod Rheoleiddio.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

- 2.2 Er y gellid bod wedi dyfarnu credyd modiwl i chi sy'n bodloni gofynion academiaidd ac ymarfer dysgu TAR (Cymru), gall Y Brifysgol Agored penderfynu peidio â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw ar sail argymhelliad Panel Addaswydd i Ymarfer os yw'n penderfynu eich bod wedi methu â bodloni'r safonau angenrheidiol yng Nghod Ymddygiad ac Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg, o ganlyniad i faterion a gododd cyn dyfarnu'r cymhwyster.
- 2.3 Os yw cymhwyster TAR wedi'i ddyfarnu a daw unrhyw faterion a gododd cyn dyfarnu'r cymhwyster dilynol i'r amlwg a bod y Panel Addaswydd i Ymarfer o'r farn y dylent fod wedi cael eu datgan ac y byddai hynny wedi arwain at atal cymhwyster TAR (Cymru), caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Disgyblu Canolog y Brifysgol Agored sydd â'r pŵer i dynnu cymhwyster TAR (Cymru) yn ôl.
- 2.4 Os na chaiff cymhwyster TAR (Cymru) ei ddyfarnu, ni fyddwch yn gymwys i gofrestru i ymarfer fel athro. Os byddwch wedi llwyddo i gwblhau modiwl(au), mae'n bosibl y gall y credyd gyfrif tuag at gymwysterau eraill Y Brifysgol Agored y byddwch yn cofrestru ar eu cyfer sydd y tu allan i Raglen TAR, ar yr amod nad oes gennych unrhyw gyfyngiadau disgybl eraill.
- 2.5 Byddwch yn ymwybodol na fydd cael cynnig lle ar y cymhwyster gan Y Brifysgol Agored na chwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn sicrhau y cewch eich cynnwys ar y [Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru](#). Mae Cyngor Addysg y Gweithlu yn cadw'r hawl i benderfynu a gewch ymuno â'r gofrestr broffesiynol ar y pwynt cofrestru. Cyfeiriwch at [ganllawiau Cyngor Addysg y Gweithlu](#) am y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru
- 2.6 Mae angen i chi gydymffurfio â'r [Polisi Urddas a Pharch](#) yn yr holl rhyngweithio gyda staff mewnol Y Brifysgol Agored, ac allanol (h.y. y rhai yn yr ysgol bartner). Mae hyn yn cynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb a rhithwir drwy ein fforymau. Bydd methu â chadw at hyn yn arwain at y canlynol:
- gohirio'r defnydd o elfennau rhyngweithiol TAR (e.e., gohirio'r defnydd o'r fforwm);
  - gosod amodau fel eich bod yn gallu parhau i astudio ar gyfer TAR;
  - eich atal rhag astudio ar gyfer TAR;
  - terfynu cofrestriad ar gyfer TAR;
  - peidio â dyfarnu TAR.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024



### 3 Ymrwymiad i Addysgu

3.1 Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru) gyda'r Brifysgol Agored, rydych yn cytuno i'r canlynol:

- a) Cydweithredu ag unrhyw Arweinydd, Cyflogwr neu Ysgol Gyswllt lle rydych yn ymgymryd ag ymarfer dysgu. Bydd yn darparu cyfnodau priodol a digonol o ymarfer dysgu i'ch galluogi i fodloni deilliannau dysgu cymhwyster TAR (Cymru) a gofynion Cyngor y Gweithlu Addysg, sy'n cynnwys 120 diwrnod (ysgol lawn) o ymarfer addysgu.
- b) Cydweithredu ag unrhyw Ysgol Arweiniol, Ysgol Gyflogi neu Ysgol Gyswllt lle rydych yn ymgymryd ag ymarfer dysgu i fodloni unrhyw ofynion rhesymol i gynnal enw da'r ysgolion, Llywodraeth Cymru, a'r Brifysgol Agored, a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol ac ariannol a'u safonau gwasanaeth mewn perthynas â'ch rhan yn y cyfleoedd ymarfer dysgu a ddarperir.
- c) Cydymffurfio â'r strwythur rhaglen cywir ar gyfer y llwybr rydych yn cofrestru ar ei gyfer; Ni all unrhyw fyfyrwr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer rhaglen rhan amser ddefnyddio strwythur Llwybr Cyflogedig i gyflawni'r rhaglen.
- d) Yn achos myfyrwr cyflogedig, dylid cydymffurfio â pholisïau ac arferion cyflogaeth yr Ysgol Gyflogi a'r Ysgol Bartner.
- e) Yn achos myfyrwr cyflogedig, yn unol â [Chymal 5.2](#), sicrhewch eich bod chi a'ch ysgol yn cydymffurfio â gofynion y rhaglen.
- f) Cymryd pob cam rhesymol i ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd ymarfer dysgu sydd eu hangen er mwyn cwblhau cymhwyster TAR (Cymru). Gall hyn gynnwys lefelau teithio rhesymol a all amrywio yn dibynnu ar leoliad daearyddol ac iaith yr astudiaeth (Cymraeg neu Saesneg) y dymunwch ymgymryd â'r rhaglen drwyddi.
- g) Sicrhau eich bod yn mynd i bob sesiwn dysgu ymarferol a seminar ar-lein oni fydd amgylchiadau eithriadol. Yn achos myfyrwr cyflogedig, dylech hefyd sicrhau y caiff unrhyw amser astudio dynodedig ei ddefnyddio ar gyfer ei bwrpas dynodedig.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

Bydd Ysgolion Partner yn gofyn i chi gydweithredu â'ch tiwtor ymarfer, cydgysylltydd yr ysgol a'ch mentor, a fydd yn gwneud y canlynol:

- a) cynnal arsylwadau a goruchwylio ymarfer, gan gynnig adborth i chi drwy gydol y cyfnodau ymarfer dysgu. Bydd yr arsylwadau hyn yn cynnwys dulliau rhithwir, gan gynnwys y defnydd o feddalwedd recordio. Mae disgwyl i fyfyrwyr ddefnyddio'r dulliau hynny. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych am drafod hyn ymhellach, cysylltwch â thîm TAR Cymru yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk).
- b) Cyflawni unrhyw gyfrifoldebau asesu sy'n ofynnol gan gymhwyster TAR (Cymru); ac yn
- c) cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a monitro, a chynnal cyfarfodydd adolygu gyda chi a'ch gilydd yn ôl y gofyn.

3.3 Os byddwch yn torri'r cymalau a nodir ym Mharagraffau 3.1 a 3.2, ac nad yw, ym marn eich mentor a Chyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd, yn rhesymol bosibl i chi gwblhau ymrwymiad addysgu, yna nid yw'n ofynnol i'ch Ysgol Gyflogi neu Gyswllt a'r Brifysgol Agored roi cyfle pellach i chi fodloni'r gofynion ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. Os na fyddwch yn bodloni'r [Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth](#) ac yn methu eich profiad addysgu (a'r cyfleoedd ailsefyll), mae'n bosibl y caiff eich astudiaethau eu hatal yn unol â'r [Amodau Cofrestru](#) (Adran E2 "Hawl y Brifysgol Agored i ganslo eich cofrestriad neu ymrestriad").

3.4 Os bydd anawsterau'n codi yn ystod profiad ymarfer dysgu sydd y tu allan i'ch rheolaeth ac sy'n tarfu ar eich dysgu, bydd Y Brifysgol Agored yn rheoli hyn ar y cyd â'ch ysgol lleoliad. Gall hyn gynnwys cynnig lleoliad arall i chi.

3.5 Os na fydd yr ysgol lleoliad yn rhoi digon o amser i chi gwblhau'r profiadau ymarfer dysgu gofynnol, bydd Y Brifysgol Agored yn trafod hyn gyda'r ysgol ac, os bydd angen, byddant yn ymdrechu i ymestyn eich cyfnod astudio i alluogi'r ysgol lleoliad i ddarparu digon o gyfleoedd ymarfer dysgu.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

## 4 Ffioedd neu Gostau Astudio

- 4.1 Ni fydd disgwyl i fyfyrwyr wneud cyfraniad uniongyrchol tuag at gostau eu hastudiaeth dan y Llwybr Cyflogedig. Caiff myfyrwyr cyflogedig eu talu (cyflogi) gan ysgol a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru (Ysgol Gyflogi) i weithio fel athro heb gymhwyso wrth iddynt astudio ar gyfer eu cymhwyster TAR. Mae hyn ar bwynt 1 o leiaf o'r raddfa gyflog i athrawon heb gymhwyso, a hynny ar sail llawn amser. Caiff ffioedd myfyrwyr ar y llwybr hwn eu hariannu gan grant hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru a chânt eu talu'n uniongyrchol i'r Brifysgol Agored drwy gydol y cymhwyster.
- 4.2 Bydd myfyrwyr yn cael eu hunanariannu dan y Llwybr Rhan Amser. Byddant yn atebol am eu ffioedd eu hunain fel y nodir ar dudalen we [Ffioedd a Chyllid TAR yng Nghymru](#).
- 4.3 Os bydd myfyrwyr cyflogedig yn torri telerau'r Cytundeb Atodol hwn neu'n methu â chydymffurfio â'r prif [Amodau Cofrestru](#), neu'n canslo neu'n terfynu eu hastudiaethau, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i dalu costau eu hastudiaeth ar unwaith.
- 4.4 Os bydd myfyrwr rhan amser yn torri telerau'r Cytundeb Atodol hwn neu'n methu â chydymffurfio â'r prif [Amodau Cofrestru](#), ni chaiff unrhyw ffioedd a delir i'r Brifysgol Agored eu had-dalu a gellir atal unrhyw Gredydau o ran Ffioedd neu drefniadau i Hefgor Ffioedd.
- 4.5 Os bydd myfyrwyr rhan amser yn canslo neu'n tynnu'n ôl o'u hastudiaethau, gwneir unrhyw ad-daliadau yn unol â'r [Rheolau Ffioedd \(Israddedigion\)](#) (Adran H: "Lefelau Atebolrwydd Ffioedd, Ad-dalu Ffioedd a/neu Gredydau Ffioedd").
- 4.6 Yn achos myfyrwyr cyflogedig, os byddwch wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol, anghywir neu dwyllodrus am eich amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwch yn atebol yn bersonol am dalu rhywfaint o'ch costau astudio neu'r costau cyfan ac yn cael eich dadgofrestru.
- 4.7 Os byddwch yn penderfynu tynnu'n ôl o'r llwybr cyflogedig ar ôl trafod â'r Brifysgol Agored, eich Ysgol Gyflogi a'ch ail ysgol, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i wneud cais i astudio cymhwyster TAR Y Brifysgol Agored drwy'r llwybr rhan amser. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm TAR yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

## 5 Cytundeb ag Ysgol Bartner a Derfynir gan Y Brifysgol Agored

- 5.1 Os caiff cytundeb cydweithredu'r Brifysgol Agored â'ch Ysgol Gyflogi neu Gyswllt ei derfynu, bydd Y Brifysgol Agored yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i orffen y rhaglen, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl brofiad ymarfer dysgu sydd eu hangen.
- 5.2 Yn achos myfyrwyr cyflogedig, os gwelir bod eich Ysgol Gyflogi yn torri telerau'r rhaglen mewn perthynas â'r cyflog a delir i chi, y pwnc (ar gyfer ysgolion uwchradd) sy'n destun ffocws eich ymarfer dysgu neu faterion eraill gyda'ch amserlen, yna mae'r Brifysgol Agored yn cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb hwnnw a'ch tynnu'n ôl o'r rhaglen.
- 5.3 Gellir canfod rhagor o fanylion ar Derfynu'r Cytundeb gydag Ysgol Bartner dan y pennawd 'Dad-ddewis Ysgolion o'r Bartneriaeth' yn y ddogfen ['Meini Prawf ar gyfer Cynnwys Ysgolion yn y Bartneriaeth.'](#)

## 6 Canslo neu Dynnu eich Cofrestriad yn ôl

- 6.1 Gallwch arfer eich hawl o dan Reoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Chostau Ychwanegol) (6.1) i ganslo eich cofrestriad heb gosb hyd at 14 diwrnod ar ôl dyddiad cadarnhau eich cofrestriad, ni waeth sut y telir eich ffioedd.
- 6.2 Gall Y Brifysgol Agored ganslo eich cofrestriad o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr [Amodau Cofrestru](#) (Adran E: "Canslo neu Dynnu eich Cofrestriad yn ôl"). Gallwn hefyd ganslo eich cofrestriad os na fyddwch yn gwneud y canlynol:
- Ymgymryd â chyfnodau ymarfer dysgu gydag ysgol bartner.
  - Cynnal amodau'r rhaglen, megis cyflogaeth gan Ysgol Gyflogi neu fethu â chynnal y safonau proffesiynol a ddisgwylir gan unrhyw Ysgol bartner.
  - Cynnal safonau'r Awdurdod Rheoleiddio o ran eich iechyd, cymhwysedd a safonau ymddygiad.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

- 6.3 O ran myfyrwyr cyflogedig, os caiff eich cyflogaeth ei therfynu gan eich Ysgol Gyflogi oherwydd eich bod yn torri telerau eich contract cyflogaeth â hi, ni fyddwch yn gallu parhau ar lwybr cyflogedig y cymhwyster hwn. Efallai y gallwch wneud cais i symud i'r llwybr rhan amser, yn dibynnu ar eich amgylchiadau. I drafod eich opsiynau, cysylltwch â thîm TAR yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk).
- 6.4 Yn achos myfyrwyr rhan amser, os na fydd eich Ysgol Gyswllt am i chi barhau â'ch lleoliad mwyach, neu os bydd unrhyw broblemau eraill yn codi, byddwn yn gweithio gyda'r ysgol o dan ein Fframwaith Datrys Problemau. Os na fydd modd datrys y problemau, mae'n bosibl y byddwch yn cael cynnig lleoliadau amgen, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
- 6.5 Os byddwch yn penderfynu canslo eich cofrestriad ar gyfer cymhwyster TAR **cyn** dechrau astudio, bydd yn rhaid i chi drafod hyn â'r Brifysgol Agored yn gyntaf er mwyn deall unrhyw oblygiadau. Yn achos myfyrwyr cyflogedig, rhaid i chi hefyd drafod hyn gyda'ch Ysgol Gyflogi oherwydd gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth (a all gynnwys colli eich cyflogaeth). Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan eich Ysgol Gyflogi.
- 6.6 Os byddwch am dynnu eich cofrestriad ar eich rhaglen TAR yn ôl **ar ôl** i chi ddechrau astudio, bydd yn rhaid i chi drafod hyn â'r Brifysgol Agored a'ch Ysgol Gyswllt neu Ysgol Gyflogi yn gyntaf. Ar ôl i chi gadarnhau eich penderfyniad, bydd yn rhaid i chi wneud datganiad clir drwy lythyr neu e-bost at Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru, neu ei gynrychiolydd, yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk), gan nodi eich penderfyniad yn ysgrifenedig. Os byddwch yn tynnu eich cofrestriad yn ôl, ni fyddwch yn gallu aildechrau eich astudiaethau, ac ni fyddwch yn fyfyrwr gyda'r Brifysgol Agored mwyach. Caiff rheolau atebolwydd o ran ffioedd eu pennu gan lwybr y rhaglen TAR rydych yn ei dilyn:
- i) bydd myfyrwyr ar y llwybr rhan amser yn ddarostyngedig i reolau ffioedd safonol y Brifysgol ([Rheolau Ffioedd \(Israddedigion\)](#));
  - ii) ni fydd myfyrwyr ar y llwybr cyflogedig yn gymwys ar gyfer unrhyw addaliadau na chredydau ar gyfer ffioedd a delir cyn hynny. Yn achos myfyrwyr cyflogedig, gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth gyda'ch Ysgol Gyflogi, a all gynnwys dod â'ch cyflogaeth i ben. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan eich Ysgol Gyflogi.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

Os byddwch wedi cwblhau unrhyw fodiwl(au) yn llwyddiannus ar adeg canslo eich astudiaethau, efallai y gallwch – yn amodol ar y [Rheoliadau Academaidd \(Cyrсияu a Addysgir\)](#) – gyfrif hyn tuag at gymhwyster arall y Brifysgol Agored y byddwch yn cofrestru ar ei gyfer y tu allan i Raglen TAR.

## 7 Eich Astudiaethau

- 7.1 Os byddwch yn absennol yn fynych neu am gyfnod estynedig o unrhyw ran o'r cymhwyster TAR, mae'n bosibl y gall hyn achosi pryder a/neu sbarduno'r [Fframwaith Cymorth Myfyrwyr](#). Rhaid rhoi gwybod am unrhyw absenoldebau yn unol â phrosesau hysbysu ynghylch absenoldeb y rhaglen.
- 7.2 Fel arfer, dylech gwblhau eich cymhwyster TAR o fewn 24 mis i ddyddiad dechrau'r modiwl cyntaf. Gweler [Adran 8](#) os credwch na fydd hyn yn bosibl.
- 7.3 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad TAR (Cymru), rhaid eich bod, ym marn Y Brifysgol Agored, yn bodloni'n foddhaol ofynion academaidd Y Brifysgol Agored (fel yr amlinellir yn y Rheoliadau Cymhwyster sy'n benodol i'r TAR), a gofynion y [Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth](#) ar gyfer pob modiwl a gwblheir. Mae hyn yn cynnwys cwblhau nifer statudol y diwrnodau ymarfer dysgu.
- 7.4 Os byddwch yn methu modiwl (gan gynnwys methu unrhyw arholiad ailsefyll neu ailgyflwyno lle y bo'n berthnasol), bydd angen i chi adael y cymhwyster TAR. Os byddwch wedi dechrau astudio'r modiwl nesaf wrth i chi aros am ganlyniadau a'ch bod wedi methu, ni fyddwch yn gallu cwblhau'r modiwl hwnnw a bydd y ffi ar gyfer y modiwl hwnnw'n cael ei had-dalu.
- 7.5 Os byddwch yn gadael neu os na fyddwch yn gymwys mwyach ar gyfer llwybr cyflogedig y cymhwyster TAR, gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth gyda'ch Ysgol Gyflogi, a all gynnwys dod â'ch cyflogaeth i ben. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan eich Ysgol Gyflogi.
- 7.6 Mae'n rhaid i chi lwyddo ym mhob modiwl er mwyn ennill cymhwyster TAR. Os na fyddwch yn llwyddo yn yr Asesiad Diwedd Modiwl cyntaf (sy'n cynnwys asesiad academaidd a gwerthusiad ymarfer dysgu), **mae'n bosibl** y cewch eich gwahodd i'w ailgyflwyno adeg y cyfle nesaf, yn dibynnu ar eich canlyniadau. Os na gynigir cyfle i chi ailgyflwyno'r ADM ar gyfer modiwl Blwyddyn 1, neu os na fyddwch yn llwyddo yn y modiwl ar ôl eich ail gynnig, byddwn yn eich tynnu oddi ar gofrestr y cymhwyster. Os na fyddwch yn llwyddo ym modiwl Blwyddyn 2,

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

nid fydd y cymhwyster TAR yn cael ei ddyfarnu i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu am drafod unrhyw beth, cysylltwch â thîm TAR yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk).

## 8 Newid Eich Cynlluniau Astudio (Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio)

- 8.1 Ni allwch oedi na gohirio eich astudiaethau rhan o'r ffordd drwodd onid fod amgylchiadau eithriadol. Mae'r rhain yn cael eu pennu yn ôl disgrisiwn Cyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru, neu ei gynrychiolydd, ac (yn achos myfyrwyr cyflogedig), Pennaeth yr Ysgol Gyflogi ([gweler Atodiad A](#)): amgylchiadau lle y gellir ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i fyfyrwyr gwblhau eu rhaglen TAR a chyflawni'r cymhwyster).
- 8.2 Os oes angen i chi stopio astudio eich modiwl presennol cyn i chi gyflwyno a llwyddo yn yr Asesiad Diwedd Modiwl (ADM), bydd angen i chi gysylltu â'r Brifysgol Agored am gyngor. Byddwch yn ymwybodol nad oes sicrwydd y cewch ohirio eich astudiaeth TAR. Rhaid i chi drafod eich opsiynau gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk). Gall yr opsiynau gynnwys cyflwyno eich ADM ar y cyfle nesaf (gohirio) neu aildechrau'r modiwl yn y cyflwyniad nesaf (oedi). Bydd unrhyw ffi neu oblygiadau astudio yn cael eu trafod â chi. Dylid trafod unrhyw oblygiadau cyflogaeth i fyfyrwyr cyflogedig â'ch Ysgol Gyflogi.
- 8.3 Os oes gennych hawl i oedi ac y bydd y dystiolaeth asesu ar gyfer y modiwl a aildechreuwyd yn parhau'n ddigyfnewid, gallech gario unrhyw sgorau Aseiniad wedi'i Farcio gan Diwtor drosodd a thystiolaeth a gasglwyd gennych yn flaenorol yn eich e-bortffolio. Gallai rhoi'r gorau i astudio effeithio ar eich cyflogaeth.
- 8.4 Gellir ystyried ceisiadau i ohirio os nad ydych wedi gallu astudio oherwydd rhesymau y tu hwnt i'ch rheolaeth ([gweler Atodiad A](#)). Mae amgylchiadau eraill lle y gellir caniatáu gohirio yn cynnwys y canlynol:
- os ydych wedi cael eich gwahardd dros dro o dan y [Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#) a'ch bod wedi cael eich adfer ar ôl hynny;
  - Yn achos myfyrwyr cyflogedig, os bydd eich cyflogaeth yn yr ysgol yn dod i ben ac nad chi oedd ar fai, ac ni all Y Brifysgol Agored ddod o hyd i ysgol arall ar unwaith a fydd yn eich helpu i gwblhau'r cymhwyster TAR (Cymru).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

Noder y bydd Y Brifysgol Agored yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i ysgol arall i chi.

- 8.5 Dan rai amgylchiadau a thrwy gytundeb â'r Brifysgol Agored a'ch Ysgol Gyflogi neu o dan y [Polisi Addasrwydd i Astudio](#), mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gymryd **seibiant i astudio** (gweler [Atodiad A](#)). Mae hyn yn golygu y byddech yn cymryd seibiant o astudio rhwng cwblhau a llwyddo ym modiwl Blwyddyn 1 a chyn dechrau modiwl Blwyddyn 2. Gallai hyn effeithio ar eich gallu i gwblhau'r cymhwyster TAR. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cymhwyster TAR, mae'n rhaid cwblhau'r holl astudiaethau o fewn pedair blynedd i ddyddiad dechrau modiwl Blwyddyn 1. Mae'n rhaid trafod y weithdrefn a'r rhesymau dros gymryd seibiant astudio o'r fath gyda Chyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd a Phennaeth eich Ysgol Gyflogi. Nid oes sicrwydd y byddech yn cael cymryd seibiant astudio.
- 8.6 Os na fydd yr astudiaethau wedi'u cwblhau o fewn pedair blynedd, ni fyddwch yn ennill y cymhwyster TAR nac argymhelliad i ddyfarnu SAC. Gallwch, yn amodol ar y [Rheoliadau Academaidd \(Cyrsiau a Addysgir\)](#), ddefnyddio unrhyw gredydau rydych eisoes wedi'u cwblhau ar gyfer cymhwyster arall Y Brifysgol Agored y byddwch yn cofrestru ar ei gyfer y tu allan i Raglen TAR.

## 9 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data

- 9.1 Gall Y Brifysgol Agored, Cyngor y Gweithlu Addysg, Llywodraet Cymru a'r Consortia Rhanbarthol/Awdurdodau Lleol ac Ysgolion Partner rannu gwybodaeth angenrheidiol am eich iechyd, anabledd, perfformiad academaidd, ymddygiad, addasrwydd i ymarfer a safonau proffesiynol. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chadw'n ddiogel. Dim ond yn unol â [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr Y Brifysgol Agored](#) y caiff ei phrosesu a chaiff ei chyfyngu i'r sefydliadau hyn.
- 9.2 Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd sydd wedi'i ddatgan gael ei rhannu ag ysgolion yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol er mwyn darparu addasiadau rhesymol i gydymffurfio â rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 9.2 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004 neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol.
- Hefyd, gall data gael eu rhannu fel nad ydych chi nac aelodau o'r cyhoedd mewn perygl wrth i chi gyflawni lleoliad.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024



Bydd Y Brifysgol Agored yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr yng Ngham 9.3 y Polisi Addasrwydd i Astudio os yw hyn yn gymwys i chi. Cyfeiriwch at y [Polisi Addasrwydd i Astudio](#) am ragor o fanylion.

9.4 Gweler [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr](#) Y Brifysgol Agored i gael gwybodaeth lawn am sut rydym yn casglu ac yn defnyddio eich data.

## 10 Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol

Bu sawl newid pwysig ers y fersiwn flaenorol o'r polisi hwn. Sef:

- a) Aileirio ac ad-drefnu cymalau cyffredinol mewn adrannau i symleiddio negeseuon lle y bo'n bosibl a gwella darllenadwyedd cyffredinol heb newid eu hystyr.
- b) Ailsaernïo'r ddogfen i wella defnyddioldeb. Er enghraifft, mae'r adran Fformat Amgen wedi symud i ben uchaf y ddogfen ac mae'r Crynodeb o newidiadau sylweddol wedi symud i ddiwedd y ddogfen.
- c) Tynnu cyfeiriadau at Hysbysiad Preifatrwydd TAR allan gan eu bod nawr wedi'u disodli gan un Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr canolog.
- d) Tynnu paragraffau safonol sy'n ymwneud â Gwerthoedd y Siarter Myfyrwyr, Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Y Brifysgol Agored a Rhoi Gwybod Mewn Lle Diogel allan, gan fod y rhain wedi'u cynnwys yn y ddogfen Amodau Cofrestru.
- e) Mae'r adran 1 flaenorol 'Crynodeb o brif delerau'r cytundeb atodol' wedi'i thynnu allan yn sgil ailadrodd a meithder.
- f) Mae'r holl waith rhifo adrannau wedi'i ddiweddarau yn sgil tynnu'r adran 1 flaenorol allan ('Crynodeb o brif delerau'r cytundeb atodol').
- g) Ychwanegu cymal 1.3 newydd sy'n gofyn i fyfyrwyr ddateglu canlyniad unrhyw weithdrefn ddisgyblu rydych wedi bod yn destun iddi, sy'n groes i God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg.
- h) Diwygio cymal 3.2a) i ddatgan y bydd arsylwadau'n cynnwys dulliau rhithwir (gan gynnwys defnyddio meddalwedd recordio) a bod disgwyl i fyfyrwyr ddefnyddio'r dulliau hynny.
- i) Ychwanegu cymal 5.3 newydd mewn perthynas â sut i ddod o hyd i fanylion pellach ar Derfynu Cytundeb gydag Ysgol Bartner.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

- j) Bydd diwygio cymal 6.5 yn cynnwys bod angen i fyfyrwyr cyflogedig siarad â'u hysgol gyflogi os ydynt yn ystyried gadael y cymhwyster TAR.
- k) Diwygio cymal 8.3 i ddatgan os bydd myfyriwr yn oedi, gallant gario unrhyw sgorau ATM a thystiolaeth e-bortffolio drosodd os bydd y gofynion asesu ar gyfer y modiwl a aildechreuwyd yn parhau'r un peth.
- l) Mae cyfeiriadau at fodiwl Blwyddyn 1 a modiwl Blwyddyn 2 wedi'u cynnwys i gydnabod y ffaith mai dim ond dau fodiwl sydd yn y cymhwyster TAR ar gyfer 2023/24 (y modiwlau yw TAR 1 a 2 a TAR 3).
- m) Ychwanegiad cymal 9.3 sy'n ymwneud ag Addaswydd i Astudio, sy'n cadarnhau y byddwn yn rhoi gwybod i gyflogwr Myfyriwr ar Gam 2 y Polisi Addaswydd i Astudio.
- n) Ychwanegu adran Adborth ar ddiwedd y ddogfen.

## Geirfa

### Ysgol Gyswllt

Ysgol lle bydd myfyrwyr TAR rhan amser yn ymgymryd â chyfnodau ymarfer dysgu.

### Cod Ymddygiad ac Ymarfer

Mae'r cod hwn yn cynnwys y safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer athrawon, fel y'u cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio: [Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg](#).

### Cyflwyno cymhwyster

Y pwynt lle y dyfernir eich cymhwyster i chi yn ffurfiol drwy brosesau dyfarnu'r Brifysgol Agored.

### Tiwtor Cwricwlwm

Cyswllt allweddol athrawon dan hyfforddiant â'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

### Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio

Gohirio: O dan rai amgylchiadau (fel y'u nodir yn Atodiad A), efallai y byddwch yn penderfynu bod angen i chi roi'r gorau i astudio cyn i chi gyflwyno'r Asesiad Diwedd Modiwl ar gyfer modiwl. Byddai angen cais i oedi arnoch a thrafod eich opsiynau gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd ([Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk)).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

O'i gymeradwyo byddech yn cael caniatâd i roi'r gorau i astudio'r modiwl rydych chi wedi cofrestru arno ar hyn o bryd ac ailgydio yn y modiwl yn ei gyflwyniad nesaf. Nid oes sicrwydd y cewch ohirio'r cymhwyster TAR.

Cymryd seibiant astudio: o dan rai amgylchiadau (fel y'u nodir yn Atodiad A) neu o dan y [Polisi Addasrwydd i Astudio](#), ac mewn cytundeb â'r Brifysgol Agored a'ch Ysgol Gyflogi, efallai y caniateir i chi gymryd seibiant astudio rhwng modiwlau. Mae hyn yn golygu y byddech yn cymryd seibiant o astudio rhwng cwblhau Modiwl Blwyddyn 1 a chyn dechrau Modiwl Blwyddyn 2. Gallai cymryd seibiant astudio effeithio ar eich gallu i gwblhau'r cymhwyster TAR.

## **E-bortffolio**

Mae hwn yn cynnwys tystiolaeth a gyflwynwyd gan y myfyriwr ar ddiwedd pob modiwl, i ddangos ei gynnydd tuag at gyflawni deilliannau'r cymhwyster TAR.

## **Ysgol Gyflogi**

Ysgol sy'n cyflogi athro dan hyfforddiant sy'n dilyn y rhaglen TAR. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu cyflogi ar gyfradd athro heb gymhwyso fel y'i pennir gan y strwythur cyflog cenedlaethol i athrawon yng Nghymru.

## **Ysgol Arweiniol**

Ysgol sy'n aelod arweiniol o bartneriaeth Y Brifysgol Agored. Mae gan yr ysgolion hyn lais strategol o ran cyfeirio a rheoli'r bartneriaeth. Gall Ysgol Bartner Arweiniol fod yn Ysgol Gyswllt neu'n Ysgol Gyflogi.

## **Y Mentor**

Y prif gyswllt yn eich ysgol sy'n eich cynorthwyo i gwblhau eich astudiaethau TAR.

## **Modiwl**

Cyfres o unedau astudio; mae rhaglen TAR yn cynnwys dau fodiwl. Mae'n rhaid i fyfyrwr gwblhau'r asesiadau academaidd a bodloni'r gofynion ymarfer dysgu yn llwyddiannus ar gyfer pob modiwl er mwyn llwyddo.

## **Ysgol Bartner**

Ysgol sydd â statws Arweiniol, Cyflogi neu Gyswllt. Gall ysgolion fod â mwy nag un statws. Maent yn ffurfio rhan o Bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

## Llwybr Rhan Amser

Y llwybr drwy'r cymhwyster TAR yng Nghymru a hunanariennir gan fyfyrwyr. Gall myfyrwyrwneud cais am fenthyciad i fyfyrwyr a grantiau cynhaliaeth rhan amser. Mae'r llwybr hwn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd oherwydd gallant gael profiad addysgu ymarferol rhan amser mewn ysgol ochr yn ochr ag ymrwymadau presennol.

## Cyfnodau Ymarfer Dysgu

Amser profiad addysgu TAR ymroddedig

## Ymarfer dysgu/ dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer

Y term cyffredinol ar gyfer profiadau dysgu sydd wedi'u lleoli mewn amgylchedd ymarfer.

## Tiwtor Ymarfer

Tiwtor Addysg Gychwynnol Athrawon profiadol o ysgol arall sy'n monitro eich cynnydd ar y cymhwyster TAR.

## Y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru

Cofrestr o athrawon a staff cymorth ysgol ac addysg bellach, gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflogwyr i sicrhau bod eu cyflogeion wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau gwaith. Mae hyn yn gymwys i gyflogeion sy'n gweithio ar sail llawn amser, rhan amser (gan gynnwys fesul awr) neu ar sail gyflenwi.

## Consortia Rhanbarthol / Awdurdodau Lleol

At ei gilydd, cefnogir y Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- helpu'r rheini sy'n addysgu plant a phobl ifanc,
- cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hymdrechion
- gwella canlyniadau dysgu ar gyfer pob person ifanc,
- sicrhau y rhoddir addysg a dysgu o ansawdd uchel,
- cefnogi a grymuso arweinwyr ysgol i arwain eu hysgolion yn well.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

Yn benodol, mae'r Consortia Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol yn aelodau allweddol o Bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon y Brifysgol Agored sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen TAR Cymru drwy:

- ddarparu cysylltiadau cynhyrchiol o ansawdd uchel gydag ysgolion ledled Cymru
- cyfrannu at Bwyllgor Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon y Brifysgol Agored er mwyn cymryd rôl strategol a gweithredol ar y cyd â'r Brifysgol Agored.

## **Llwybrau yn y cymhwyster TAR**

Mae dau lwybr i gyflawni'r cymhwyster hwn: mae'r Llwybr Cyflogedig a'r Llwybr Rhan Amser (y ddau yn cynnwys dau fodiwl, y mae'r modiwl cyntaf yn 60 credyd ar Lefel 6 (israddedig) a'r ail fodiwl yn 60 credyd ar Lefel 7 (ôl-raddedig).

### **Llwybr cyflogedig**

Myfyrwyr a gyflogir gan ysgol wladol fel cynorthwydd addysgu, neu mewn rôl nad yw'n rôl addysgu, a all wneud cais i'w hysgol eu cymeradwyo. Mae myfyrwyr sy'n dilyn y llwybr hwn yn gweithio mewn ysgol yn llawn amser ac mae'n rhaid i'w cais gael ei gymeradwyo gan eu hysgol (a fydd yn talu eu cyflog). Caiff eu costau astudio eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Gall myfyrwyr nad ydynt yn gweithio mewn ysgol wladol ar hyn o bryd wneud cais am y llwybr cyflogedig ond bydd angen cymeradwyaeth arnynt gan ysgol wladol.

### **Cydlynnydd Ysgol**

Uwch-aelod o staff yr ysgol, a ddarperir gan ysgolion.

### **Ail Ysgol**

Yr ail ysgol y caiff myfyrwyr cyflogedig eu lleoli ynddi i gwblhau eu hymarfer dysgu.

## **Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr**

Tîm Y Brifysgol Agored yng Nghymru sy'n delio ag ymholiadau am gofrestrïadau ac sy'n rhoi cymorth bugeiliol, cyffredinol ac arbenigol ychwanegol (e.e. cymorth anabled) i Fyfirwyr yn ystod eu hastudiaethau.

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

## Fframwaith Cymorth i Fyfyrrwyr

Y Fframwaith Cymorth i Fyfyrrwyr yw'r dull a ddefnyddir i roi cymorth ychwanegol i athro dan hyfforddiant yn ystod y rhaglen TAR. Mae wedi'i ddylunio i gefnogi athrawon dan hyfforddiant:

- A all gael budd o gyfnod o waith â ffocws penodol i unioni un neu fwy o feysydd eu hymarfer sy'n peri trafferth iddynt
- Y gellid cefnogi eu llesiant neu eu gwydnwch
- Sydd â'r potensial i ragori ar lefelau presennol eu cynnydd ac y mae angen cymorth arnynt i wneud hynny.

### Ni/Ein

Mae hyn yn cyfeirio at Y Brifysgol Agored.

### Chi

Yn cyfeirio atoch chi fel y Myfyriwr.

## Eglurhad pellach

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth arall atom yn electronig er mwyn i ni allu ymateb i chi cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy'r post. Er mwyn gwirio'r cyfeiriadau post diweddaraf a manylion cyswllt eraill, neu i gael yr amseroedd ymateb diweddaraf ar gyfer derbyn ac anfon gohebiaeth drwy'r post atom, edrychwch ar [swyddfeydd y Brifysgol Agored](#).

I gael canllawiau penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'r tîm TAR yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk)

### Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Gallwch siarad â chynghorydd cymorth myfyrrwyr yn Gymraeg neu'n Saesneg os ydych yn preswyllo yng Nghymru.

18 Heol y Tollty

Caerdydd

CF10 1AP

Ffôn +44 (0)29 2047 1170

E-bost [wales-support@open.ac.uk](mailto:wales-support@open.ac.uk)

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

## I siaradwyr Cymraeg

Os ydych yn siarad Cymraeg a byddai'n well gennych drafod eich anghenion drwy gyfrwng y Gymraeg, cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd os gwelwch yn dda ffôn 44 (0) 29 2047 neu e-bost [wales-support@open.ac.uk](mailto:wales-support@open.ac.uk)

## Adborth

Croesawir sylwadau ac adborth am y polisi hwn a sut y gellid ei gwella. Cyflwynwch y rhain i [SPR-Policy-Team@open.ac.uk](mailto:SPR-Policy-Team@open.ac.uk).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr,
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

# Atodiad A

Tabl : 2 Amgylchiadau lle y gall myfyrwyr ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i fyfyrwyr gwblhau a chyflawni'r cymhwyster TAR (Cymru).

Maen prawf	Amodau a nodiadau	Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth gefnogol sydd ei hangen
1. Marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd.	Diffinnir aelod agos o'r teulu fel rhywun roeddech yn dibynnu arno (yn emosiynol neu'n ariannol) neu a oedd yn ddibynnod arnoch chi.	Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.  Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth (gellir gwneud eithriad os bu'r farwolaeth o fewn chwe wythnos cyn gwneud cais).
2. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu oherwydd salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol.	Os oeddech yn ymwybodol o'r problemau meddygol cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod y cyflwr wedi gwaethygu neu ddirywio ers hynny, h.y. ni ellid bod wedi rhagweld ar ddechrau'r modiwl y byddai'r salwch neu'r cyflwr wedi cael effaith andwyol ar eich astudiaethau.	Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.  Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. (Mae'n rhaid i gyfnod y salwch gael effaith ar bryd y tynnir yn ôl).

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024



<p>3. Anabledd</p>	<p>Gwneir yr addasiadau rhesymol gan y Brifysgol i gydymffurfio â rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall, sydd heb eich galluogi i astudio'n effeithiol; neu</p> <p>Mae effaith anabledd ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy difrifol na'r disgwyl; neu</p> <p>Mae eich anabledd(au) wedi cael effaith gynyddol ar eich astudiaethau ers dyddiad dechrau'r modiwl.</p>	<p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.</p> <p>Tystiolaeth ategol o gofnodion y Brifysgol e.e. tiwtor neu'r tîm Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr yn Y Brifysgol Agored yng Nghymru.</p>
<p>4. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd beichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth.</p>	<p>Os oeddech yn ymwybodol o'r beichiogrwydd cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y beichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.</p>	<p>Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.</p> <p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan weithiwr iechyd proffesiynol, e.e. meddyg teulu, meddyg ymgynghorol neu fydwraig yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>
<p>5. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd mabwysiadu.</p>	<p>Os oeddech yn ymwybodol o'r mabwysiadu cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y broses fabwysiadu neu gyfrifoldebau gofalgar ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.</p>	<p>Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau cymdeithasol, asiantaeth mabwysiadu neu dystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

<p>6. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd ailbennu rhywedd.</p>	<p>Os oeddech wedi bod drwy'r broses o ailbennu rhywedd cyn dyddiad dechrau'r modiwl neu os oeddech yn ymwybodol erbyn hynny o'r trefniadau i wneud hynny ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.</p>	<p>Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.</p> <p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>
<p>7. Newid annisgwyl mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu nad yw'n rhesymol bosibl i chi barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith, TG gwael neu ddiffyg cyfleusterau astudio.</p>	<p>Ni chaiff amgylchiadau a all ddigwydd fel arfer wrth ymgymryd â'ch cyflogaeth llwybr cyflogedig fel newid tasgau, cynnydd yn y llwyth gwaith neu ofynion teithio rhesymol eu hystyried.</p>	<p>Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.</p> <p>e.e. llythyr neu e-bost gan eich Ysgol Gyflogi.</p>
<p>8. Camweinyddu ar ran y Brifysgol.</p>	<p>Camau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu y gellid eu hystyried yn gamweinyddu ar ran y Brifysgol ac sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academaidd. Nid yw hyn yn cynnwys amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol.</p>	<p>Unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. cofnod o gyswllt myfyrwyr.</p>

Rhif y fersiwn: 1.0	Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd
Yn weithredol o: 1 Awst 2023	Dyddiad adolygu: Mawrth 2024

<p>9. Amgylchiadau eithriadol eraill difrifol y tu hwnt i'ch rheolaeth.</p>	<p>Amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth a wnaeth leihau'n sylweddol yr amser a oedd ar gael i chi astudio dros gyfnod parhaus.</p>	<p>Tystiolaeth ategol e.e., adroddiad gan y gwasanaethau brys, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu neu gwnselydd neu ddogfennaeth yswiriant y cartref.</p>
<p>10. Newid annisgwyl mewn cyfrifoldebau gofalu.</p>	<p>Os oedd eich cyfrifoldebau gofalu ar waith cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.</p>	<p>Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.</p> <p>e.e. Llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>

<p>Rhif y fersiwn: 1.0</p>	<p>Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd</p>
<p>Yn weithredol o: 1 Awst 2023</p>	<p>Dyddiad adolygu: Mawrth 2024</p>